(This document is also available in English)

# Amlddiwylliannaeth - helpu pawb i wneud synnwyr o'r byd!

*Ysgrifennwyd gan Dr Sibani Roy (NWAMI - Networking for World Awareness of Multicultural Integration), 2023*

Mae arolygu'r materion gwahanol sy'n gysylltiedig ag 'amlddiwylliannaeth', yn rhoi bras ddiffiniad i helpu i dywys dadansoddiad. Gellir dadlau bod amlddiwylliannaeth yn y DU wedi'i wreiddio yn fuan yn y 17eg Ganrif gyda genedigaeth ac ehangiad yr Ymerodraeth Brydeinig. Gellir sylwi ar lawer o hyn yng ngweithiau llenyddol Shakespeare a Walter Scott. Mae diwedd yr Ymerodraeth Brydeinig a'r broses o ddad-wladychu wedi arwain at newid yn natur /adeiladwaith demograffig poblogaeth y DU.

Mae hunaniaeth yn gysyniad deinamig. Mae amlddiwylliannaeth yn ystyried hunaniaeth fel rhywbeth statig a sefydlog o fewn ffiniau grŵp. Mewn nifer o achosion, mae'r rhain bellach yr un mor 'hanfodol' â'r hen syniadau am wahaniaethau o ran hil. Maent wedi - yn ddiofal o bosibl - hyrwyddo syniadau cenedlaetholgar o ragoriaeth, yn hytrach na thorri ffiniau a chydnabod dynoliaeth gyffredin. Y realiti i lawer o bobl heddiw fodd bynnag yw bod hunaniaeth yn llawer mwy symudol a hyd yn oed yn rhywbeth dros dro. I raddau helaeth, gellir ystyried bod hunaniaeth yn rhywbeth sy'n cael ei ddewis, yn hytrach na'i roi. Mae'r cynnydd mewn priodasau hil cymysg, a phriodasau ar draws ffiniau cenedlaethol, cred a ffiniau eraill bellach yn golygu fod yna lawer o gefnogaeth i'r syniad 'Allwch chi ddim fy rhoi i mewn bocs', fel yr eglura Fanshawe a Sriskandarajah:

"Mewn oes o lawer o amrywiaeth lle nad yw pobl yn uniaethu o amgylch un hunaniaeth ac yn teimlo teyrngarwch sy'n croesdynnu (os oes ganddynt deyrngarwch o gwbl) i grwpiau sydd wedi'u diffinio, mae

gweithredaeth o amgylch edefynnau penodol yn ymddangos yn amherthnasol i nifer o bobl ac efallai nad ydynt mor effeithiol â hynny yn mynd i’r afael â gwir achosion o anghydraddoldeb. Nid yw hyd yn oed y prif gategorïau rydym ni'n dibynnu arnynt (er enghraifft, ‘du’, ‘hoyw’, ‘Asiaidd’ neu ‘anabl’) bellach yn gallu dweud llawer wrthym am bwy yw’r bobl, pa fath o fywyd maent yn ei fyw, gyda phwy maent yn uniaethu â nhw, neu pa wasanaethau maent eu hangen gan lywodraeth a chymdeithas. Mae’n ymddangos bod y dull ticio bocs yn methu’r nifer gynyddol o bobl nad ydynt yn disgyn o fewn nac ar draws dosbarthiadau safonol. Ond eto mae cymdeithas yn dueddol o drin hunaniaethau ethnig fel petaent wedi’u diffinio, yn statig ac yn ystyrlon ac mae cyrff cyhoeddus yn mynnu ar ddosbarthu mewn blwch ticio”

Mae “diwylliant” yn derm ymbarél sydd yn cynnwys ymddygiad cymdeithasol, sefydliadau ac arferion sydd i’w canfod mewn cymdeithasu dynol, yn ogystal â’r wybodaeth, credoau, celfyddydau, cyfreithiau, arferion, galluoedd a chynefinoedd unigolion yn y grwpiau yma. Mae hefyd yn ddull o dyfu rhywbeth - planhigyn er enghraifft.

Bellach, rydym ni’n meithrin cymdeithas newydd mewn proses barhaus wrth i’r byd materol newid bron yn ddyddiol. Mae’n rhaid i ni addasu i hyn wrth i ni gyd symud ymlaen, ac wrth i ni wneud hynny, mae cymdeithas newydd yn datblygu o’n hamgylch ni. A fydd yn parhau i fod yn amlddiwylliannol? Sut allwn ni weithio i fod yn fwy goddefgar a chynhwysol o bawb, ond eto parhau’n gymdeithas amlddiwylliannol? Dyma’r dynamigau rydym ni’n mynd i’r afael â nhw yn NWAMI wrth i ni geisio ymgysylltu â chymunedau mewn amrywiaeth o sgyrsiau a rhyngweithio cymdeithasol, gwyliau a digwyddiadau sydd yn dathlu talentau ac amrywiaeth o ddulliau sydd yn ein cymunedau sydd eisoes yn amrywiol.

Mae gan NWAMI - Networking for World Awareness of Multicultural Integration - safle rhagweithiol o ran ein dull cyfunol wrth symud ymlaen - rydym ni’n credu bod parchu a deall ein gilydd yn hanfodol, rydym ni’n

**(This document is also available in English)**

hyrwyddo prosiectau cydweithredol i edrych ar ffrydiau cymdeithasol ac artistiaid a cheisio ymgysylltu â chymunedau mewn sgyrsiau a thrafodaethau agored a chadarnhaol.  Yn allweddol, ein nod yw cynnal deinamig symudol lle mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ethnigrwydd, dechreuadau a ffydd yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at y canlyniadau rydym ni'n eu datblygu.  Mae dynoliaeth yn greiddiol i hyn - heb bobl, does yna ddim diwylliant!

Rydym ni'n teimlo mai un o sawl canlyniad cadarnhaol ein gwaith yw galluogi pobl rydym ni'n dod ar eu traws ac sydd yn ymgysylltu â ni mewn unrhyw ffordd, yw ailasesu pendantrwydd eu syniadau, o bosibl yn agor persbectifau newydd y maen nhw'n edrych ar gymdeithas. Mae hon yn broses ddwyffordd wrth gwrs, ac mae'r dull cydgyfnewid yma'n wych. Mae cychwyn sgwrs yn golygu cael gwared ar rwystrau a chydweithio er mwyn adeiladu cysylltiadau a fydd yn para pan ddaw'r prosiect i ben.  O fewn gweithgareddau o'r fath y mae newidiadau parhaol, er yn rhai cynnil yn aml, sydd yn gosod sylfeini hyd yn oed cryfach i'r amgylchfyd newydd.

Yn ôl y sôn, ni chafodd Rhufain ei adeiladu mewn diwrnod - a dweud y gwir, dim ond dau fachgen ifanc iawn a blaidd oedd yno! Yn yr un modd, rydym ni'n sylweddoli bod nifer o broblemau sefydliadol y system gymdeithasol rydym ni'n ceisio symud oddi wrtho, yn parhau fel dylanwadwyr cryf ar ymddygiad a meddylfryd o fewn sawl sector.  Nid yw rhai unigolion yn gweld unrhyw broblem, nid oes gan rhai y sgôp i newid. Gall pwysau grŵp cyfoedion waethygu sefyllfaoedd o'r fath.  O fewn ein sefydliad, rydym ni'n amlwg yn ceisio cael gwared ar unrhyw sefyllfa o'r fath rhag codi, a phan fyddwn ni'n dod ar ei draws yn allanol, rydym ni'n ceisio annog unigolion sy'n wynebu hyn i siarad gyda ni i ddod o hyd i ddatrysiad yn hytrach nag ymgysylltu mewn gwrthdaro.

**Cyfeiriadau**

**(This document is also available in English)**

Simon Fanshawe a Danny Sriskandarajah (2010) You Can't Put Me In A Box: Super-amrywiaeth a diwedd gwleidyddiaeth hunaniaeth ym Mhrydain, Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus